SEMESTER UN 2025/2026

YSGOL FUSNES

MODIWL CB15120: HANFODION BUSNES A RHEOLAETH

Amser a ganiateir: **2 AWR**

Atebwch **DDAU** gwestiwn

MAE MODD I FYFYRWYR GYFLWYNO ATEBION I'R PAPUR HWN NAILL AI YN
Y GYMRAEG NEU'R SAESNEG

Ar ôl eistedd, gall myfyrwyr lenwi clawr blaen y llyfr(au) ateb a'r slip presenoldeb YN UNIG

PEIDIWCH Â TROI'R PAPUR CWESTIYNAU ARHOLIAD DROSODD TAN Y GOFYNNIR I WNEUD HYNNY.

Atebwch **DDAU** gwestiwn. Mae pob cwestiwn werth 50 marc.

1. **Trafodwch y camau y gall busnesau eu cymryd i sicrhau eu bod yn gweithredu mewn modd cyfrifol? Defnyddiwch enghreifftiau i ddangos eich ateb.**

2. **Defnyddiwch Bum Grym Porter i ddadansoddi'r pwysau cystadleuol sy'n wynebu tafarn bentref draddodiadol yn y DU. Pa un o'r grymoedd sy'n debygol o gael y dylanwad mwyaf ar ei oroesiad hirdymor, a pham?**

3. **Gwerthuswch yn feirniadol effaith globaleiddio ar fanwerthwyr bach annibynnol. I ba raddau mae globaleiddio yn creu cyfleoedd yn ogystal â heriau i'r busnesau hyn?**

4. **Trafodwch achosion gwrthdaro mewn timau prosiect a gwerthuswch strategaethau y gallai rheolwr eu defnyddio i'w ddatrys yn effeithiol. Defnyddiwch enghreifftiau i gefnogi eich ateb.**

5. **Gan ddefnyddio damcaniaethau arweinyddiaeth a drafodwyd yn y dosbarth (e.e., grid rheoli Blake a Mouton, neu arweinyddiaeth drawsnewidiol vs. arweinyddiaeth drafodiadol), gwerthuswch sut y gall gwahanol arddulliau arweinyddiaeth ddylanwadu ar gymhelliant a pherfformiad gweithwyr.**

6. **Gan gyfeirio at fodel arweinyddiaeth sefyllfaol Hersey a Blanchard, amlinellwch pam a sut y bydd arweinwyr yn addasu eu harddull. Rhowch enghreifftiau o pryd y bydd rhai arddulliau arweinyddiaeth yn gweithio orau.**

7. **Trafodwch yr opsiynau y gall cwmni eu cymryd i dyfu eu busnes yn ddomestig ac yn rhyngwladol. Rhowch enghreifftiau i gefnogi eich ateb.**

8. **Sut gall polisïau economaidd asgell chwith ac asgell dde effeithio ar yr amgylchedd busnes? Defnyddiwch enghreifftiau i gefnogi eich ateb.**
   NEU
   Eglurwch beth a olygir gan y term sector cyhoeddus. Sut mae'n wahanol i'r sector preifat?

9. **Trafodwch beth sy'n gwneud strategaeth gyfathrebu busnes llwyddiannus. Defnyddiwch enghreifftiau I gefnogi eich ateb.**

END OF PAPER